Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 20 Ionawr 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Dave Snape,
Y Cynghorydd Sir Emrys Wynne ac un aelod o'r cyhoedd.

170. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Harris, Ian Lewney ac Ifan Wyn.

171. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

172. ADRODDIAD Y MAER

Esboniodd y Dirprwy Faer y byddai adroddiad y Maer ar gyfer mis Ionawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Chwefror.

173. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych – Rhuthun Dementia Ymwybodol, cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn Theatr y Pafiliwn, y Rhyl a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod i sefydlu Pwyllgor Maes Chwarae Coffa a gynhaliwyd yng Nghlwb Peldroed Rhuthun a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn Theatr y Pafiliwn, y Rhyl
Cyng. Jim Bryan	
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Cyngerdd dan nawdd Clwb Rotari Rhuthun gydag ysgolion y dre'n cymryd rhan a Chymanfa Garolau yng Nghapel Tabernacl at Bwyllgor Apêl yr Urdd, Rhuthun
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	Paratoi 110 o hamperi Nadolig ar ran y Banc Bwyd, a dosbarthu'r hamperi'r diwrnod canlynol
Cyng. Anne Roberts	Bore Coffi Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Cyng. Dave Snape	
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose a chyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun

174. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN
Derbyniodd yr aelodau adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Emrys Wynne ar ran y tri Chynghorydd Sir sy'n cynrycholi ward Rhuthun. Roedd yn cyfeirio at y safleoedd ymgeisiol ychwanegol yn Rhuthun ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol diweddaraf a chynlluniau diwygiedig ar gyfer 77 cartref fforddiadwy yng Nghlasdir.

175. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019 yn gywir.*

176. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

177. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020.*

178. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020, yn ddarostyngedig i ychwanegu bod y Cynghorydd Robert Owen-Ellis yn bresennol yn y cyfarfod.*

179. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS
Adroddodd y Dirprwy Faer bod Gweithgor yr Hen Lys wedi cyfarfod yn y bore, ac mae llawer iawn o ddiddordeb gan grwpiau cymunedol sy'n dymuno llogi'r adeilad, a bod strwythur ffioedd drafft wedi'i lunio gan Reolwr yr Hen Lys. Gofynnodd yr aelodau am gopi ohono. Dywedodd y Clerc bod Open Reach wedi anfon dau beiriannydd ar 6 Ionawr ond nad oeddynt yn medru cyflawni'r gwaith o osod y llinell ffôn a band eang, ac roeddynt if od i ddychwelyd ar 21 Ionawr gyda diweddariad i'w ddarparu ar 22 Ionawr.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

180. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU
Ar sail natur yr wybodaeth yn y cofnodion gofynnodd yr aelodau i'r eitem hon gael ei hystyried fel eitem Rhan Dau ar ddiwedd y cyfarfod.
PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad.*

181. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF
Darllenodd y Dirprwy Faer gyfieithydd llythyr ymddiswyddo a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Emrys Wynne ar 31 Hydref 2019, yn datgan ei fod wedi penderfynu ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor Tref o 1 Ionawr 2020. Diolchodd yr aelodau iddo am ei gyfraniad i'r Cyngor Tref, y bu'n aelod ohono ers 1991 gydag egwyl am wyth mis, a gwasanaethoedd fel Maer y Dref ddwywaith.
PENDERFYNWYD: *derbyn y llythyr ymddiswyddo ac y byddai'r Clerc yn hysbysu Swyddfa Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych am y sedd wag ac yn anfon llythyr o ddiolch at y Cynghorydd Wynne.*

182. CYLLIDEB Y CYNGOR TREF AR GYFER 2020-21
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cynhwyswyd pennawd cyllideb newydd ar gyfer plannu coed, yn unol â chais yr aelodau.
PENDERFYNWYD: *cytuno ar y swm praesept ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun yn 2020-21 fel £149,250, sy'n cyfateb i £61.90 ar gyfer eiddo Band D, wedi'i seilio ar y Sail Dreth Gyngor o*

2,443 o anheddau.

183. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2019.*

184. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100261	SLCC	Adnewyddu aelodaeth Clerc y Dref gydag SLCC		£180.00
100262	Public Works Loan Board (PWLB)	Ad-daliad benthyciad yr Hen Lys (problem gyda'r gorchymyn Debyd Uniongyrchol)		£3,515.42
100263	Workplace Worksafe Ltd	Bathodyn adnabod i'r Cynghorydd Jabez Oakes	*	£27.70
100264	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Ionawr 2020	*	£84.00
100265	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100266	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£27.29
100267	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£12.30
100268	Cyfieithu Cymunedol Conwy	Cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod Cyngor Tref Rhuthun, 25 Tachwedd 2019	*	£202.00
100269	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd – Ionawr 2020	*	£180.00
100270	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol yn y Rhyl ar 17.01.2020		£34.00
100271	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£701.42
100272	Cyng. Gavin Harris	Lwfans y Maer – ail daliad		£600.00
100273	Urdd Gobaith Cymru	Trydydd rhandaliad pecyn nawdd Cyngor Tref Rhuthun yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020		£3,500.00
D.U.	BT Business	Gwasanaeth ffôn a band eang	*	£243.47
100274	IT Williams	Llogi lori Hiab a gyrrwr i dynnu'r goeden Nadolig wedi'i difrodi ymaith a gosod coeden newydd	*	£156.00
100275	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a thynnu goleuadau Nadolig Rhuthun i lawr	*	£5,422.25

O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys

100024	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu eitemau'r cyflenwr ar gyfer yr Hen Lys	*	£1,260.17
100025	Ruthin Décor Ltd	Deunyddiau paentio ar gyfer yr Hen Lys	*	£1,732.63
100023	Richard Williams (Deganwy) Ltd	Pren a deunyddiau cysylltiedig ar gyfer yr Hen Lys	*	£480.96

185. ADNEWYDDU YSWIRIANT

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cynnig adnewyddu'r yswiriant gan Zurich Insurance ar £4,475.82 am flwyddyn, £4,256.82 y flwyddyn am dair blynedd neu £4,038.65 y flwyddyn am bum mlynedd. Esboniodd y Clerc ei bod wedi gofyn am ddyfynbris gan gwmni Came & Co hefyd, ond gan fod arnynt angen gwybodaeth ychwanegol, nid oeddynt wedi medru darparu dyfynbris ar gyfer y cyfarfod. Trafododd yr aelodau bod Zurich wedi darparu gwasanaeth rhagorol hyd yma a chynigiwyd ac eiliwyd adnewyddu'r polisi yswiriant am gyfnod o bum mlynedd.

PENDERFYNWYD*: adnewyddu'r polisi yswiriant gyda Zurich Insurance am bum mlynedd ar gost o £4,038.65 y flwyddyn.*

186. ADNEWYDDU ENW PARTH CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried pris gan HCI Data Ltd i adnewyddu enwau parth cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk am ddwy flynedd am £72.00 y flwyddyn + TAW yr un, neu cyngortrefrhuthun.llyw.cymru a ruthintowncouncil.gov.wales ar gost o £109 yr un + TAW. Holodd yr aelodau a oedd y wybodaeth ynghylch cael y parthau cyngortrefrhuthun.cymru a ruthintowncouncil.wales yn gywir. Cynigiwyd adnewyddu'r enwau parth cyfredol i sicrhau bod gwefan a chyfeiriadau e-bost y Cyngor Tref yn parhau'n weithredol ac i roi mwy o ystyriaeth i sicrhau'r parthau llyw.cymru / .cymru and gov.wales / .wales domains.

PENDERFYNWYD*: adnewyddu'r enwau parth cyfredol am ddwy flynedd arall ar gost £72.00 y flwyddyn + TAW a rhoi rhagor o ystyriaeth i'r parthau cymru/wales er mwyn sicrhau trosglwyddo trefnu i'r parthau newydd, os llwyddir i'w caffael.*

187. RHUTHUN SY'N DEALL DEMENTIA

Cyflwynodd y Dirprwy Faer ddiweddariad ynghylch cyfarfod a gynhaliwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i fwrw ymlaen i gael Rhuthun yn dref sy'n Deall Dementia. Awgrymwyd y gallai gwirfoddolwyr yn yr Hen Lys dderbyn hyfforddiant Deall Dementia er mwyn bod yn ymwybodol o bobl sy'n byw gyda dementia a sut i'w helpu. Nododd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Chwefror am hanner dydd.

RESOLVED*: nodi'r wybodaeth.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau isod yn breifat.

188. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU

Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod i'r aelodau. Bwriedir cael trafodaethau ynghylch darpariaeth chwaraeon a hamdden yn Rhuthun fel rhan o wythnos Dyfodol Rhuthun yn ystod yr wythnos yn dechrau 24 Chwefror.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad.*

189. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 17 Chwefror 2020 am 7pm yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun.*